


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan am 7 yh nos Fawrth Ebrill 30 2024

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith (Cadeirydd), Alwyn Gruffydd (Is-Gadeirydd), Gwilym Jones, Carol Hayes, Michael Roberts, John Gwynedd Roberts, Dr Melfyn Edwards, Marian Roberts (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau :-** Cyng Connor Westwood

2. **Archwilio'r cyfrifon.**

Yn dilyn cyfarwyddyd gan yr Archwilydd Mewnol cyflwynwyd Mantolen ddiwygiedig. Nododd y Clerc fod yr Archwilydd yn fodlon gyda'r archwiliad ond nad oedd wedi derbyn y Ffurflen Flynyddol yn ei hôl eto. Cafwyd y Fantolen yn gywir.

Dangosodd y Clerc y cyfrifon ar gyfer 2023-24 ar daflenni Excel ar y sgrin ac eglurodd sut mae'r taflenni taliadau, derbyniadau a chymhariaeth rhwng gwariant 2022-23 a 2023-24 yn cael eu cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol. Tynnodd sylw at y daflen cymhariaeth oedd yn nodi sut mae'r oedi ddigwyddodd efo Cyfraniadau eleni wedi cael effaith ar y cyfrifon ac ar Gyfraniadau 2025.

Gadawodd y Clerc y cyfarfod.

3. **Cyflog y Clerc.** (*Mater statudol sydd yn gorfod cael ei drafod yn flynyddol*)

Cyflog presennol :- Gris 27 - £18.58 yr awr.

Cytundeb 24 awr yr wythnos.

Dychwelodd y Clerc i'r cyfarfod i gofnodi'r **penderyniad** i gadw'r cyflog ar yr un raddfa o £18.58 yr awr

4. **Biliau i'w talu – gwariant disgwylidig**

Nododd y Clerc iddi ganslo tanysgrifiad rhaglen Scribe o fewn y cyfnod 14 diwrnod prawf oherwydd nad oedd ganddi'r sgiliau priodol i wneud defnydd llawn ohono a bod y rhan fwyaf o glercod yn defnyddio Excel. Byddai'r rhaglen wedi costio bron i fil o bunnoedd a theimlai na allai gyfiawnhau'r fath wariant am rhywbeth na fyddai'n gallu ei ddefnyddio'n effeithiol. Ni chyflwynwyd taliad felly i Scribe.

Awdurdodwyd y 4 taliad arall.

| | | | |
|---|----------------|---|-----------|
| 1 | Cambrian News | Hysbyseb swydd Clerc | £144.00 |
| 2 | Clear Councils | Yswiriant 2024-2025 | £1,860.11 |
| 3 | Defib Store | Padiau newydd i defib y Post a Cerrig yr Afon | £120.00 |
| 4 | Y Ganolfan | Cytundeb llogi swyddfa 2024-2025 | £5,200.00 |

5. Penderfynu ar wariant Nadolig 2024

Trafodwyd costau blynyddol Nadolig a gwelwyd ar y sgrin restr o gostau Nadolig megis coed; gosod a thynnu coed; gosod a thynnu goleuadau heb sôn am gostau R.J.Electrics am osod, profi ac atgyweirio goleuadau Nadolig. Mae'r Cyngor Tref wedi gwario dros £13,000 yn 2023-24 a dydi bil Cyngor Gwynedd am £2367.00 i osod a thynnu'r coed ddim wedi ei gynnwys yn hynny. Edrychwyd yn fanwl ar ddyfynbris R.J.Electrics a phenderfynwyd ar beth i'w dderbyn a beth i'w wrthod ar y rhestr. Trafodir y mater o weithgareddau Nadolig yng nghyfarfod llawn mis Mai.

Penderfynwyd - peidio ag adnewyddu'r goleuadau sydd yn mynd ar draws y strydoedd gan mai rhain sydd yn dirywio fwyaf yn y gwynt a'r glaw a phrynu 12 yn ychwanegol o'r goleuadau Falling Star fel prynwyd yllynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30.

Marian Roberts (Clerc)

1.5.24